# Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

## EOC(3)-14-08 (p.2) : 6 Tachwedd

### Hygyrchedd Gorsafoedd Pleidleisio yng Nghymru

### Cefndir

Rhoddwyd yr adroddiad Hygyrchedd Gorsafoedd Pleidleisio yng Nghymru gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 11 Rhagfyr 2007. Diben yr adroddiad oedd cael effaith gadarnhaol ar yr etholiadau lleol ym mis Mai 2008. Roedd yn cynnwys 12 o argymhellion a oedd wedi'u hanelu at Lywodraeth Cynulliad Cymru, y Comisiwn Etholiadol ac awdurdodau lleol. Darparodd Llywodraeth y Cynulliad ymateb ysgrifenedig i'r argymhellion a oedd yn berthnasol iddi ar 15 Ionawr 2008.

### Y cyd-destun deddfwriaethol

Nid oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru unrhyw rymoedd i ddweud wrth awdurdodau lleol sut i gynnal etholiadau. Nid yw'r Llywodraeth yn gyfrifol am ariannu etholiadau chwaith. Swyddog Canlyniadau'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y modd y mae etholiadau'n cael eu cynnal, a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n dal i fod â'r grym i basio deddfwriaeth sylfaenol mewn perthynas ag etholiadau. Yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am ariannu etholiadau lleol.

### Etholiadau lleol ym mis Mai 2008 – Effaith yr adroddiad

Mae'r Comisiwn Etholiadol (y Comisiwn) yn gorff statudol sydd â dyletswydd i adrodd ar etholiadau cenedlaethol. Ar gais Llywodraeth Cynulliad Cymru, cynhyrchodd adroddiad ar yr etholiadau lleol a gynhaliwyd yng Nghymru ym mis Mai 2008. Hon yw'r unig ffynhonnell wybodaeth am y modd y cafodd yr etholiadau eu cynnal.

Yn yr adroddiad, mae'r Comisiwn yn nodi mai ychydig iawn o adborth negyddol yr oedd wedi'i gael ynghylch materion yn ymwneud â hygyrchedd. Ym marn y Comisiwn, mae gwelliant graddol i'w weld yn hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio, ac mae pob awdurdod lleol yn cymryd camau bwriadol i wella hygyrchedd.

Bu cynrychiolwyr y Comisiwn yn ymweld â gorsafoedd pleidleisio, a'r adborth a gafwyd ganddynt oedd bod rhai o'r pethau a welwyd gan y cynrychiolwyr ac a oedd yn effeithio ar hygyrchedd yn fân broblemau a allai gael eu datrys gan staff yr orsaf bleidleisio ar y diwrnod. Roedd y rhwystrau a welwyd yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, gwrthrychau y gellid eu symud yn hawdd, arwyddion print bras wedi cwympo a staff nad oeddent yn gwybod sut i ddefnyddio offer ar gyfer pobl â nam ar eu golwg.

Nododd y Comisiwn y gallai problemau o'r fath beri trafferth i bleidleiswyr neu wneud iddynt deimlo'n anfodlon, ond roeddent yn hawdd eu datrys. Mae'r Comisiwn yn argymell y dylai materion ynghylch hygyrchedd gael eu cynnwys yn yr hyfforddiant y mae staff gorsafoedd pleidleisio'n ei gael.

Sicrhaodd y Comisiwn bod y "Llawlyfr ar gyfer Gorsafoedd Pleidleisio" ar gael ar gyfer yr etholiadau lleol. Roedd y Llawlyfr yn cynnwys arweiniad cynhwysfawr a rhestr wirio ar hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio i'w defnyddio gan staff yr awdurdodau lleol. Roedd yr adroddiad yn nodi fodd bynnag nad oedd pob Swyddog Canlyniadau ar draws Cymru wedi darparu hyfforddiant i staff gorsafoedd pleidleisio ar gyfer etholiadau 2008. Mae'n bosibl mai'r ffaith mai'r awdurdod lleol ei hun sy'n gyfrifol am dalu am ddarparu'r hyfforddiant sydd i gyfrif am hynny. Mae hyn yn wahanol i etholiadau cenedlaethol, lle mae'r Swyddog Canlyniadau'n gallu hawlio costau hyfforddi staff yn ôl gan yr adran berthnasol yn y llywodraeth. Roedd yr adroddiad yn nodi y byddai'r Comisiwn yn parhau i argymell bod Swyddogion Canlyniadau'n darparu hyfforddiant i'w staff, sy'n cynnwys gwella hygyrchedd ar gyfer pob pleidleisiwr.

Roedd y Comisiwn yn nodi hefyd bod Deddf Gweinyddu Etholiadol 2006 yn mynnu bod awdurdodau lleol yn cynnal arolwg o'u hardaloedd pleidleisio a hygyrchedd eu mannau pleidleisio. Dylai'r arolygon hyn gael eu cynnal o leiaf unwaith bob pedair blynedd. Darparodd y Comisiwn gyfarwyddyd ac arweiniad i awdurdodau lleol ynghylch sut i gynnal yr arolygon hyn. Aeth y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol ati i gynnal yr arolygon yn ystod hydref/gaeaf 2007.

Mae'r ffaith bod y Comisiwn yn gweld gwelliant graddol yn hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio yn galonogol. Fodd bynnag, mae'n amhosibl priodoli'r gwelliant hwn i unrhyw ffactor unigol.

### Datblygu polisi

Gan nad oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru rymoedd i greu deddfwriaeth sylfaenol yn y maes hwn, mae'n gweithio trwy gyfrwng y Grŵp Cynllunio Etholiadau. Penderfynodd y Grwp gomisiynu ymgynghorwyr i ystyried y ffordd orau o weithredu'r argymhellion a wnaed i'r Grŵp Cynllunio Etholiadau yn yr adroddiad a gynhyrchwyd gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Rhagfyr 2006 - "Trefniadau Etholiadol yng Nghymru".

Cyhoeddodd yr ymgynghorwyr, CRG Research Limited eu canfyddiadau ym mis Awst 2008. Roedd adroddiad yr ymgynghorwyr yn nodi nad oedd gan y Grŵp ddigon o rym statudol ac nad oedd ganddo gyllideb.

O ran yr hyn yr oedd y Grŵp yn gallu ei wneud mewn perthynas â materion penodol yn ymwneud â hygyrchedd, roedd yr adroddiad yn argymell:

y dylai'r Grŵp Cynllunio Etholiadau dynnu sylw'r Comisiwn Etholiadol at faterion yn ymwneud â hygyrchedd, a chynnig cyngor ar yr arweiniad diweddaraf a roddir gan y Comisiwn, fel y bo hynny'n briodol

y dylai'r Grŵp Cynllunio Etholiadau ddefnyddio ei ddylanwad i sicrhau bod arfer da yn cael ei fabwysiadu

y dylai'r Grŵp Cynllunio Etholiadau adolygu'r arfer da cyfredol a'i rannu â gweinyddwyr etholiadol a Swyddogion Canlyniadau ar draws Cymru.

Bydd y Grŵp yn symud y gwaith hwn yn ei flaen. Fel cam rhagarweiniol, roedd y cyfarfod ar 21 Hydref yn cynnwys cyflwyniad gan ymchwilydd a oedd yn archwilio faint o bobl yn y gymuned fyddar sy'n cymryd rhan mewn etholiadau, a beth ellir ei wneud i sicrhau bod mwy yn cymryd rhan.

Yn ychwanegol at hyn, bydd y Grŵp yn ystyried sut i weithio gyda Scope Cymru a'r Pollen Shop. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi nodi y byddai'n barod i ariannu gwaith archwilio pellach ar hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio. Mae Scope Cymru wedi bod yn gweithio ar y cyd â'r Pollen Shop i gysylltu â swyddogion i drafod eu syniadau ynghylch nodi nifer y gorsafoedd pleidleisio anhygyrch a mesur cyfradd unrhyw newidiadau.

Datblygiad pellach a wnaed o ran polisi yw bod y Comisiwn Etholiadol wrthi'n ymgynghori ar Safonau Perfformiad. Bydd hyn yn cynnwys gosod safonau y cytunwyd arnynt ar y cyd y gellir mesur perfformiad Swyddogion Canlyniadau yn eu herbyn. Bydd y safonau yn cynnwys hygyrchedd gorsafoedd pleidleisio a hygyrchedd y wybodaeth a ddarperir i ymgeiswyr ac etholwyr. Bydd safonau perfformiad yn galluogi'r Comisiwn i gasglu set o ddata cywir ac unffurf fel y cam cyntaf tuag at gynllunio dull ar gyfer gwella a datblygu.

**Brian Gibbons, AC**

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol**